

Adroddiad ar Adolygiad Ymarfer Oedolion

Adolygiad Ymarfer Oedolion Cryno Bwrdd Diogelu Caerdydd a'r Fro

Parthed: APR 03/2020

Amlinelliad cryno o'r amgylchiadau sydd wedi arwain at yr Adolygiad

I'w cynnwys yma: -

- *Y cyd-destun cyfreithiol o ganllawiau ar yr adolygiad dan sylw*
- *Yr amgylchiadau sydd wedi arwain at yr adolygiad*
- *Y cyfnod amser sy'n destun yr adolygiad a phaham*
- *Amserlen gryno o ddigwyddiadau arwyddocaol i'w hychwanegu ar ffurf atodiad*

Comisiynwyd adolygiad ymarfer oedolion cryno gan Fwrdd Diogelu Rhanbarthol Caerdydd a'r Fro yn sgil argymhelliad gan yr Is-grŵp Adolygu Ymarfer Oedolion a Phlant yn unol â'r Canllawiau ar gyfer Adolygiadau Ymarfer Oedolion Amlasiantaethol. Caiff meini prawf yr adolygiad hwn eu bodloni dan *Adran 139 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014*:

Rhaid i Fwrdd gomisiynu adolygiad ymarfer oedolion pan fo oedolyn sy'n wynebu risg sydd heb, ar unrhyw ddyddiad yn y 6 mis cyn dyddiad y digwyddiad, fod yn berson y mae'r awdurdod lleol wedi penderfynu cymryd camau i'w ddiogelu rhag camdriniaeth neu esgeulustod yn dilyn ymchwiliad gan awdurdod lleol ac sydd:

*wedi marw, neu
wedi cael anaf a allai beryglu ei fywyd; neu
amharwyd yn ddifrifol ac yn barhaol ar ei iechyd.*

Amserlen yr adroddiad hwn yn yw 26/03/2018 tan ddyddiad y digwyddiad dan sylw sef 02/06/2019. Penderfynwyd dechrau'r adolygiad ar 26/03/2018 oherwydd dyma'r dyddiad cyntaf i drosedd â chylllell gael ei chofnodi.

Cafodd yr unigolyn sy'n destun yr adolygiad hwn, y byddwn yn cyfeirio ato fel B, ei drywanu i farwolaeth yn 18 oed yng Nghaerdydd. Cafodd tri oedolyn eu cyhuddo o'i lofruddio. Nodwyd bod B mewn perygl yn flaenorol yn gysylltiedig â chamfanteisio gan droseddwyr, meddiant ar arfau, a throseddau gwerthu cyffuriau. Roedd wedi cael ei arestio ag arfau yn ei feddiant a bu symiau mawr o arian parod yn ei feddiant pan gafodd ei arestio'n flaenorol. Amheuwyd, felly, ei fod yn ymwneud â throseddau cyfundrefnol. Roedd wedi mynegi ofn am ei ddiogelwch yn y gymuned ychydig wythnosau'n unig cyn ei lofruddiaeth.

Bu diffyg cyfarfodydd aml-asiantaeth i gynorthwyo gyda chynllunio diogelwch neu weithgareddau strwythuredig i'w helpu i ddatgysylltu o fyd troseddu. Mae'n ymddangos bod ei oedran yn un o'r ffactorau a gyfrannodd at fethiant asiantaethau i gynllunio'n gydlynol. Cafodd ei lofruddio bythefnos ar ôl ei ben-blwydd yn 18 oed. Collwyd cyfleoedd ymgysylltu ag ef a'i deulu drwy Gynllun Gofal a Chymorth i Blentyn Mewn Angen, a chollwyd cyfle i sicrhau bod atgyfeiriad yn cael ei wneud i Ymddiriedaeth St Giles (elusen sy'n helpu i ddargyfeirio pobl ifanc o droseddu cyfundrefnol). Mae'n werth nodi, tra bu'n destun Gorchymyn Atgyfeirio Dwys y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuencid, dair wythnos cyn ei lofruddiaeth, aeth i bob apwyntiad gyda gweithwyr proffesiynol. Mae hefyd yn werth nodi na chysylltwyd yn gyson â theulu B. Ni siaradodd y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuencid â rhieni B wrth baratoi adroddiad Cyn Dedfrydu, a chollwyd cyfleoedd eraill i ymgysylltu â'i rieni eu colli neu, digwyddon nhw heb wasanaeth cyfieithu.

Pwrpas yr adroddiad adolygu ymarfer hwn yw nodi'r pwyntiau dysgu allweddol a gwneud argymhellion ar ymarfer yn sgil yr adolygiad aml-asiantaethol a'r digwyddiad dysgu. Roedd panel adolygu'r achos hwn yn cynnwys cynrychiolwyr o Heddlu De Cymru, Gwasanaethau Cymdeithasol Plant, y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuencid, Maes Iechyd, Maes Addysg, Ymddiriedolaeth St Giles, a'r Gymdeithas Dai. Mynychwyd y digwyddiad dysgu gan weithwyr proffesiynol amlasiantaethol a fu'n ymwneud yn uniongyrchol â'r achos hwn. Yn anffodus, nid oedd gennym gynrychiolydd cyfredol o Wasanaethau Cymdeithasol Caerdydd oherwydd amgylchiadau annisgwyl, fodd bynnag, roedd y gweithiwr cymdeithasol a fu'n ymwneud â'r achos ar y pryd, cyn mynd i awdurdod lleol arall yn ystod y llinell amser dan sylw, yn bresennol. Cyfrannodd pob gweithiwr proffesiynol yn dda at y digwyddiad ac roedden nhw'n agored ac yn fyfyrionol am eu gweithredoedd. Argymhellon nhw nifer o syniadau i wella ymarfer yn y dyfodol sydd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad hwn.

Cysylltwyd ag aelodau'r teulu cyn y digwyddiad dysgu. Gwnaethpwyd ymdrechion sylweddol, fodd bynnag, ni lwyddwyd i gysylltu â nhw er mwyn iddyn nhw fod yn rhan o'r adolygiad. Byddwn yn cysylltu â'r teulu eto cyn cyhoeddi'r adolygiad hwn.

Ymarfer a dysgu sefydliadol

Nodi pob pwnt dysgu unigol sy'n codi o'r achos hwn (gan gynnwys tynnu sylw at arfer effeithiol) gydag amlinelliad cryno o'r amgylchiadau perthnasol.

Colli cyfleoedd i rannu gwybodaeth amlasiantaethol

Daeth B i gysylltiad â'r heddlu ar sawl achlysur yn ystod amserlen yr adolygiad hwn. Roedd y cysylltiadau hyn yn cynnwys stopio a chwilio ac arestiadau. Cyflwynwyd dau Hysbysiad Diogelu'r Cyhoedd mewn perthynas â B a chafodd y rhain eu rhannu â Gwasanaethau Plant. Arweiniodd un o'r rhain at drafodaeth strategaeth. Ar achlysuron eraill roedd hi'n ymddangos nad oedd y swyddogion a fu'n ymwneud â B yn ystyried y posibilrwydd ei fod yn agored i gamfanteisio o ystyried cyd-destun y cysylltiadau. Gallai'r hysbysiadau hyn fod wedi rhoi'r cyfle i asiantaethau i ailasesu'r risg i B yng ngoleuni'r wybodaeth hon. Dwedwyd wrth y panel bod gwaith yn digwydd o fewn Heddlu De Cymru i fynd i'r afael ag achosion diweddar o

Gamfanteisio'n Droseddol ar Blant, a nodwyd y gwaith hwn yn adran [Newidiadau i Ymarfer](#) yn yr adroddiad hwn.

Gofynnodd Gweithiwr Diogelu Dy Hun o Wasanaethau Plant Caerdydd am Gyfarfod Diogelu Amlasiantaethol ond ddigwyddodd hynny ddim. Nid yw'r cofnodion yn nodi pam yn union na ddigwyddodd. Roedd yn gyfle a gollwyd gan asiantaethau i ystyried ar y cyd y risg i B a chynnig cymorth iddo ef a'i deulu.

Cadw cofnodion a dogfennau

Dwedodd gweithwyr proffesiynol yn y digwyddiad dysgu y dylai'r Cynllun Gofal a Chymorth i Blentyn Mewn Angen fod wedi cynnwys amcanion clir gydag amserlenni pendant a gweithwyr proffesiynol dynodedig. Nid oedd y cynllun ar gyfer B yn dilyn y canllawiau hyn ac felly bu'n anodd olrhain pam na wnaethpwyd atgyfeiriad i Ymddiriedolaeth St Giles, rhywbeth sydd wedi'i nodi'n aml mewn dogfennau asiantaethol.

Dylai cynllun gofal B fod wedi cael ei drosglwyddo i weithiwr cymdeithasol arall pan aeth ei weithiwr cymdeithasol blaenorol i weithio mewn awdurdod lleol gwahanol. Ddigwyddodd hynny ddim. Nid yw'r cofnodion yn nodi pam yn union na ddigwyddodd.

Hygyrchedd cyngor a gwybodaeth i bobl ifanc a'u rhieni/gofalwyr ar droseddu cyfundrefnol a chamfanteisio troseddol.

Yn ddigon naturiol, gall rhieni neu ofalwyr fod yn ansicr i dynnu sylw asiantaethau statudol at weithgareddau anghyfreithlon person ifanc. Mae angen rhoi negeseuon o obaith i bobl ifanc a'u teuluoedd am sut y gallan nhw ddianc o **Droseddu Cyfundrefnol** a chamfanteisio troseddol. Mae nifer o adnoddau ar gael ar gyfer teuluoedd. Mae mwy o wybodaeth ar gael ar dudalen [geirfa ac adnoddau](#) yr adroddiad hwn.

Dywedodd gweithwyr proffesiynol yn y digwyddiad dysgu bod angen rhoi cyhoeddusrwydd i'r adnoddau hyn drwy ddulliau cyfryngau cymdeithasol yn ogystal â dulliau mwy traddodiadol er mwyn cyrraedd y cynulleidfaoedd cywir.

Cyfleoedd hyfforddi amlasiantaethol.

Dywedodd staff yn y digwyddiad dysgu y bydden nhw'n elwa o gael mwy o gyfle i gwblhau hyfforddiant diogelu ar y cyd ag asiantaethau eraill. Roedden nhw i gyd yn teimlo y byddai hynny'n helpu gydag ansawdd yr atgyfeiriadau diogelu y maen nhw'n eu cyflwyno. Mae gweithwyr proffesiynol o'r tu allan i'r Gwasanaethau Cymdeithasol wedi dweud y bydden nhw'n hoffi cael gwell dealltwriaeth o pam y mae rhai achosion yn symud ymlaen i gynadleddau achosion amddiffyn plant tra nad yw eraill. Er bod marwolaeth y person ifanc hwn wedi digwydd cyn Covid, mae 'na bryder bod asiantaethau yn fwy ynysig ers y pandemig a byddai hyfforddiant amlasiantaethol fel yr hen raglen hyfforddiant, sef Gweithio Gyda'n Gilydd, yn helpu i gryfhau'r cyfathrebu rhwng asiantaethau ac unwaith eto yn codi pwysigrwydd atgyfeiriadau diogelu plant sy'n manylu'n gynhwysfawr bob pryder am bobl ifanc sy'n agored i niwed. Lle mae hyfforddiant amlasiantaethol yn cael ei gynnig yn y

rhanbarth, mae angen pwysleisio pwysigrwydd digwyddiadau o'r fath i reolwyr er mwyn sicrhau bod staff yn cael eu rhyddhau i fod yn bresennol.

Y Cyfnod Pontio o Wasanaethau Plant i Wasanaethau Oedolion

Roedd B bron yn 18 oed yn mynd i'r Llys leuenctid. Roedd yr angen yn parhau i wneud rhywbeth am y sefyllfa beryglus yr oedd ynddi. Fe wnaeth gweithwyr proffesiynol yn y digwyddiad dysgu ddweud bellach y byddai ffurflen Mekanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol (MAC) yn cael ei hystyried. Dylai'r ffurflen hon sbarduno cyfarfodydd amlasiantaethol i drafod ymyriadau i achosion o gamfanteisio'n droseddol ar blant neu os oes pryderon bod hynny'n digwydd. Y nod yw ffurfio cynlluniau diogelwch ac adnabod cyfleoedd i darfu ar y bobl sy'n gyfrifol. Mae'r perygl o gamfanteisio'n parhau i fodoli i bobl ifanc ar droi'n 18 oed, ond mae llai o gyfleoedd i aros mewn cysylltiad, ac mae llawer o'r cymorth sydd ar gael ar sail wirfoddol.

Nid oedd gan weithwyr proffesiynol ddigon o ymwybyddiaeth o wahaniaethau diwylliannol wrth ymdrin â B ac mae'n ymddangos bod sefydliadau wedi ymateb i B fel oedolyn cyn iddo gyrraedd ei ben-blwydd yn 18 oed.

Gweithio gyda rhieni/gofalwyr gyda llai o Saesneg

Mae'n ymddangos yn yr achos hwn nad yw rhieni B (dim ond y fam sy'n cael ei chrybwyll yn y llinell amser) yn rhugl yn Saesneg. Brawd neu chwaer i B yn aml oedd yn cyfieithu. Efallai oherwydd hynny, nid oedd rhieni B yn clywed y wybodaeth lawn am B a'i gysylltiad gyda'r heddlu. Roedd y trefniant hwn hefyd yn rhoi gormod o gyfrifoldeb ar y brodyr neu chworydd dan sylw, a oedd ond ychydig yn hŷn na B. Nid nhw oedd ei warcheidwaid cofrestredig.

Mae pryderon y gallai brawd neu chwaer geisio amddiffyn eu brawd neu chwaer drwy beidio â chyfleu'r problemau'n llawn. Nid oes tystiolaeth i awgrymu bod hynny wedi digwydd yn achos B, ond mae'n bryder sydd wedi ei nodi yn ystod yr adolygiad ymarfer hwn. Er y deallir bod teuluoedd weithiau'n gyndyn o ddefnyddio cyfieithwyr annibynnol oherwydd pryderon y gallai eu cymuned ddod i wybod am gamweddau plentyn, dylid ystyried defnyddio cyfieithydd annibynnol lle mae gan rieni ddealltwriaeth gyfyngedig o'r Saesneg.

Nodwyd hefyd na chysylltodd awdur yr Adroddiad Cyn Dedfrydu â rhieni B. Mae'n rhaid i bob adroddiad ac asesiad gan y Gwasanaeth Cyfiawnder leuenctid nodi a ydyn nhw wedi siarad â rhieni/gofalwyr a ffynonellau gwybodaeth eraill - mae'r GCI yn monitro hyn yn rhan o'r prosesau rheoli gwybodaeth a Sicrhau Ansawdd sy'n digwydd gyda phob achos. Nid yw'n glir pam na ddigwyddodd hyn yn yr achos hwn.

Y Gwasanaeth Cyfiawnder leuenctid ac aseinio achosion pan fydd swyddogion yn absennol.

Fel y soniwyd eisoes, gwnaed B yn destun Gorchymyn Atgyfeirio leuenctid ond roedd ei Swyddog Gwasanaeth Cyfiawnder leuenctid dynodedig ar wyliau am nifer

o wythnosau. O ganlyniad i hynny, roedd ei sesiynau cyntaf gyda'r Tîm Cyfiawnder leuenctid i'w gweld yn fyr. Prin oedd y dystiolaeth o chwilfrydedd proffesiynol ac ni wnaeth y swyddog ailymweld â'r pryderon diogelu a gododd B yn ystod ei gyfweiliad Adroddiad Cyn Dedfrydu. Yn anffodus, cafodd ei lofruddio cyn cael apwyntiad arall gyda'i weithiwr GCI dynodedig. Argymhellir yn y dyfodol bod achosion newydd yn cael eu haseinio'n barhaol i swyddog fydd mewn gwaith. Pe bai swyddog dynodedig yn colli wythnos gydag achos newydd, byddai'n dderbyniol. ond ni ystyriwyd bod sawl wythnos yn arfer da.

Gwella Systemau ac Arfer

Er mwyn sicrhau y dysgir o'r achos hwn, mae'r adolygiad wedi adnabod y camau gweithredu canlynol i'r Bwrdd Diogelu Oedolion a'i asiantaethau partner, a'r canlyniadau gwella disgwylidig:-

Dangosodd pob ymarferydd yn y digwyddiad dysgu ymroddiad ac ymrwymiad i'w amryw rolau. Mae'n rhaid canmol eu cyfraniad agored a gonest i'r digwyddiad dysgu hefyd.

Consensws staff y digwyddiad dysgu oedd y dylai cyfathrebu rhwng asiantaethau fod wedi bod yn well a chollwyd cyfleoedd i gael trafodaethau aml-asiantaeth neu gyfarfodydd strategaeth a chollwyd cyfle i ddarparu Cynllun Gofal a Chymorth i B a'i deulu ar ôl i weithiwr cymdeithasol gadael, a methiant wedyn i drosglwyddo'r achos i weithiwr cymdeithasol arall.

Mae gwaith yr Hyb Diogelu Amlasiantaethol bellach yn llawer mwy sefydledig nag yr oedd yn 2019 ac mae gwybodaeth well hefyd am y perygl eithafol y mae pobl ifanc ynddo o ymwneud â throseddau cyfundrefnol. Nid oedd dealltwriaeth eang o brofiad plant a phobl ifanc o niwed sylweddol y tu allan i'r teulu yn 2019; erbyn hyn mae'n ymddangos ei fod yn flaenllaw ar agendâu diogelu llawer o asiantaethau statudol.

O drafod yn y digwyddiad dysgu a'r wybodaeth a ddarparwyd i'r panel, mae'n amlwg bod y cymorth sydd ar gael i blant lle mae pobl yn camfanteisio'n droseddol arnyn nhw, a'u teuluoedd, yn fwy cynhwysfawr. Dywedodd pob aelod o staff y bydden nhw'n croesawu mwy o hyfforddiant diogelu amlasiantaethol.

Newidiadau i ymarfer:

Heddlu De Cymru

Mae ailstrwythuro wedi digwydd yn Heddlu De Cymru i sicrhau ymateb cyson a chydlynus i Gamfanteisio Troseddol ar Blant (CTB) ledled ardal y llu gyda digon o gapasiti a gallu i ymchwilio iddo a'i stopio, ac i ddiogelu dioddefwyr. Ers cyfnod yr adolygiad hwn, mae baneri Camfanteisio Troseddol wedi'u cyflwyno er mwyn amlygu i swyddogion y plant hynny sydd mewn perygl. Mae newid polisi wedi'i gwneud yn ofynnol cyflwyno hysbysiad diogelu ar gyfer unrhyw plentyn yn y ddalfa.

Yn ogystal â hynny, yn Nghaerdydd a'r Fro, cynhelir cyfarfodydd dyddiol rhwng Heddlu De Cymru a'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuencid i drafod unrhyw berson ifanc sy'n hysbys i'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuencid sydd wedi bod yn rhan o ddigwyddiad yn y pedair awr ar hugain blaenorol. Mae hynny'n sicrhau bod rheolwyr achos y gwasanaeth a chydweithwyr mewn Gwasanaethau Plant yn cael eu diweddarau mor aml â phosibl ac yn cynorthwyo gyda gwneud asesiadau a chymorth ymyrraeth mor berthnasol ag y gall fod. Mae proses hefyd mewn lle i rannu gwybodaeth gydag ysgolion os oes cysylltiad rhwng un o'u disgyblion a digwyddiad yn ymwneud â chylllell.

Gwasanaeth Gweithwyr Ieuencid y Ddalfa

Ers Hydref 2021, mae'n orfodol cynnig mynediad at weithiwr ieuencid y ddalfa i unrhyw berson ifanc (10-17 oed) a arestiwyd o fewn ardal Heddlu'r De, a fydd yn gallu rhoi cymorth ychwanegol. Mae hwn yn wasanaeth rhad ac am ddim (a ariennir gan Uned Atal Trais Cymru). a ddarperir gan fudiad annibynnol sy'n canolbwyntio ar wella cyfleoedd bywyd plant ledled Cymru. Maen nhw'n cynnal cyfweiliadau ysgogiadol yn yr amgylchedd dan glo a'r tu allan iddo, gan helpu pobl ifanc i fyfyrion ar eu trywydd bywyd a chael mynediad at gyfleoedd cadarnhaol yn eu cymunedau. Ers mis Gorffennaf 2022 mae hynny wedi cael ei ymestyn i unrhyw berson ifanc sy'n mynd i gyfweiliad Heddlu Gwirfoddol.

Y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuencid ac aseinio achosion pan fydd swyddogion yn absennol.

Mae'r system bresennol ar gyfer aseinio adroddiadau yn digwydd o fewn 24 awr ar ôl derbyn y cais Adroddiad Cyn Dedfrydu gan y llys. Y rhan fwyaf o achosion, byddai awduron yr adroddiad wedyn yn parhau i reoli'r achos yn dilyn dedfrydu. Byddai'r tîm rheoli yn edrych ar argaeledd a chapasiti wrth ysgrifennu adroddiadau ac ystyried unrhyw absenoldeb wedi'i chynllunio er mwyn sicrhau cysondeb ymarfer sy'n seiliedig ar berthynas ym mhob rhan o'r tîm. Er nad oes modd osgoi absenoldeb staff weithiau; yn achos absenoldeb arfaethedig, fel arfer byddai trosglwyddiad wedi'i ddogfennu rhwng gweithwyr i sicrhau amlinelliadau clir o ddisgwyliadau a gwaith tra bo'r rheolwr achos cyfrifol yn absennol.

Troseddu cyfundrefnol a chamfanteisio troseddol

Ar hyn o bryd mae Heddlu De Cymru a'r Uned Atal Trais yn cynnal ymgyrch #nottheone ynghylch troseddau â chylllyll. I ddynion 11-16 oed mae hi yn bennaf gyda'r nod o fod yn adnodd ymyrraeth gynnar y gall athrawon, arweinwyr grwpiau ieuencid, rhieni, ffrindiau a theuluoedd ei ddefnyddio i addysgu pobl ifanc am beryglon a chanlyniadau cario cylllell. Dylai'r Bwrdd geisio hyrwyddo hyn ac ymgyrchoedd eraill ar eu sianeli cyfathrebu. [Hafan - NotTheOne](#)

Dros y flwyddyn ddiwethaf mae Awdurdod Lleol a phartneriaid Dinas Caerdydd wedi datblygu'r fframwaith SAFE neu DIOGEL (Diogelu'r Ifanc O Gamfanteisio). Crëwyd a rhannu offeryn sgrinio gyda'r holl staff ochr yn ochr â llwybr atgyfeirio clir ar gyfer achosion unigol o gamfanteisio (cyfarfodydd strategaeth camfanteisio / paneli risg uchel / dadansoddiad mapio gyda'r heddlu).

Mewn cyd-destun ehangach, mae gwaith yn cael ei gwblhau o amgylch datblygu'r cwricwlwm mewn ysgolion, matrices hyfforddiant camfanteisio ar gyfer staff a phrotocol MISPER. Cynhelir grŵp partneriaeth SAFE sy'n canolbwyntio ar gamau bob mis gan dynnu sylw ac ymateb i themâu o gyfarfodydd unigol a grwpiau ffocws ardal sydd wedyn yn adrodd i'r Bwrdd Adfer Plant a Phobl Ifanc.

Cyfleoedd hyfforddi amlasiantaethol.

Mae Bwrdd Diogelu Caerdydd a'r Fro (BDCF) wedi datblygu pecyn hyfforddi amlasiantaethol a fydd ar gael i'w ddarparu'n fewnol ond bydd hefyd yn cael ei ddarparu gan BDCF ar sail amlasiantaethol.

Cynlluniau Gofal a Chymorth.

Mae tîm adolygu Cynllun Gofal a Chymorth bellach ar waith. Mae polisi trosglwyddo achosion newydd ar waith yng Nghaerdydd hefyd. Mae yna hefyd gynorthwywyr adnoddau ychwanegol ar waith sy'n helpu gyda phroblemau capasiti a galw mewn timau rheng flaen.

Mae setiau data wythnosol hefyd yn cael eu gweld a'u gweithredu gan reolwyr o ran rhoi adnoddau ar gyfer materion. Mae hyn oll yn cyfrannu at recriwtio a chadw staff gofal cymdeithasol.

Pwyntiau Dysgu ac Argymhellion:

Mae'r pwyntiau dysgu trwy gydol yr adolygiad hwn wedi arwain at yr argymhellion canlynol. Mae asiantaethau wedi gwneud rhywfaint o gynnydd ar rai o'r argymhellion hyn yn ystod yr amser sydd wedi mynd heibio ers llofruddiaeth B.

1. Mae angen bodloni Bwrdd Diogelu Caerdydd a'r Fro bod yr holl asiantaethau yn ymwybodol o sut i adnabod camfanteisio a'r mecanwaith llwybr / atgyfeirio priodol i sicrhau bod cyfarfodydd amlasiantaethol (MASM) yn cael eu cynnal. Byddai hyn yn cynnwys y gweithwyr proffesiynol priodol sydd hefyd yn bresennol yn y Cyfarfodydd Diogelu Amlasiantaethol, sydd wedi'u hyfforddi a'u harfogi i gynllunio gofal o gwmpas lleihau'r risg o gamfanteisio i blant.
2. Collodd B gyfle i ymgysylltu ag Ymddiriedolaeth St Giles gan oherwydd ymddengys bod dryswch ynglŷn â phwy ddylai fod wedi cyfeirio B at yr elusen honno. Rhaid i Gynlluniau Gofal a Chymorth Effeithiol gael canlyniadau clir gyda champau ar fyrder a gweithwyr proffesiynol dynodedig. Dylai Bwrdd Diogelu Caerdydd a'r Fro fod yn sicr bod yr holl Gynlluniau Gofal a Chymorth yn cael eu rheoli a'u hadolygu'n briodol.
3. Dylai'r Cynllun Gofal a Chymorth i B fod wedi cael ei drosglwyddo i weithiwr cymdeithasol arall ar ôl i weithiwr cymdeithasol asiantaeth adael. Ddigwyddodd hynny ddim. Mae angen goruchwyliaeth reoli gadarn o unrhyw deuluoedd a systemau sydd heb weithiwr dynodedig i sicrhau bod cysylltiad yn parhau gyda'r teuluoedd hynny neu gall effeithio'n niweidiol ar blant a'u teuluoedd.

4. Dylid atgoffa ymarferwyr o'r holl asiantaethau o bwysigrwydd cadw cofnodion cywir gan gynnwys gwneud penderfyniadau rheoli.
5. Codwyd pryderon yn y Digwyddiad Dysgu am gadw gweithwyr cymdeithasol, a'r orddibyniaeth ar staff asiantaeth sy'n gallu gadael swyddi yn ddirybudd, sy'n gallu creu bylchau yn y ddarpariaeth ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n agored i niwed. Mae angen i Fwrdd Diogelu Caerdydd a'r Fro roi sicrwydd y bydd ymateb cadarn i heriau sy'n gysylltiedig â'r broses cadw a recriwtio, gyda gwydnwch a chyda risgiau'n cael eu hamlygu i Lywodraeth Cymru.
6. Ar hyn o bryd nid oes llawer o gynnwys ar wefan Bwrdd Diogelu Rhanbarthol Caerdydd a'r Fro ar lwybrau cymorth ar gyfer plant a phobl ifanc a'u gofalwyr o ran camfanteisio troseddol. Mae angen i'r Bwrdd sicrhau ei fod yn rhoi cyhoeddusrwydd effeithiol i adnoddau a chymorth i bobl ifanc a'u gofalwyr ynghylch sut a ble y gallan nhw gael cymorth a chynghor o ran camfanteisio troseddol a throseddu cyfundrefnol. Roedd cyfranogwyr at y Digwyddiad Dysgu hefyd yn lleisio bod angen cynnig cynghor a chymorth drwy lwyfannau cyfryngau cymdeithasol eraill.
7. Amlygodd gweithwyr proffesiynol yn y digwyddiad dysgu fod digwyddiadau hyfforddi amlasiantaethol yn cefnogi arferion gweithio llai ynysig ac y byddai'n helpu i wella ansawdd eu hadroddiadau diogelu. Dylai Bwrdd Diogelu Caerdydd a'r Fro sicrhau bod digwyddiadau hyfforddiant diogelu amlasiantaethol ar gael i staff. Lle mae hyfforddiant amlasiantaethol yn cael ei gynnig yn y rhanbarth, mae angen pwysleisio pwysigrwydd digwyddiadau o'r fath i reolwyr er mwyn sicrhau bod staff yn cael eu rhyddhau i fod yn bresennol.
8. Mae matrices hyfforddiant camfanteisio sydd newydd ei ddatblygu yn rhoi cyfleoedd pwrpasol i staff uwchsgilio yn y maes hwn. Dylai Bwrdd Diogelu Caerdydd a'r Fro sicrhau bod y matrices hwn wedi ei rannu ag asiantaethau er mwyn galluogi asiantaethau unigol i adnabod staff sydd angen mynd ar hyfforddiant.
9. Nodwyd yn y digwyddiad dysgu yr heriau wrth drosglwyddo o wasanaethau diogelu plant i wasanaeth oedolion i bobl y sawl y camfanteisiwyd arno'n droseddol. Mae'r perygl o gamfanteisio'n parhau i fodoli i bobl ifanc ar droi'n 18 oed, ond mae llai o gyfleoedd i gysylltu â nhw. Dylai Bwrdd Diogelu Caerdydd a'r Fro sicrhau bod yna ddull amlasiantaethol effeithiol o drosglwyddo o fewn y rhanbarth.
10. Doedd dim sôn yn y llinell amser am beth oedd iaith gyntaf y rhieni, ac nid oedd cofnod bod unrhyw weithwyr proffesiynol wedi gofyn am ba wasanaeth cyfieithu yr oedd ei angen ar y rhieni. Codwyd pryderon fod brawd neu chwaer sy'n oedolyn yn aml angen cyfieithu i'w rhieni. Gallai hyn fod wedi arwain at rieni B ddim yn cymryd rhan lawn a rhoi gwybod am drafferthion B. Ni chysylltwyd â rhieni B hefyd gan y gweithiwr y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuencid a ysgrifennodd yr Adroddiad Cyn Dedfrydu. Dylid cynnal adolygiad o'r defnydd o wasanaethau cyfieithu gan Wasanaethau Cymdeithasol Caerdydd.

11. Mynegodd B bryderon am ei ddiogelwch ei hun mewn cyfweiliad adroddiad cyn dedfrydu a doedd dim dogfennaeth i ddangos bod adroddiad diogelu wedi'i wneud. Mae angen i'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuentid roi sicrwydd pellach bod adroddiadau diogelu perthnasol yn cael eu gwneud os yw pryderon diogelu yn cael eu codi mewn unrhyw ryngweithio â phobl ifanc.
12. Sicrhawyd y panel fod gwaith yn mynd rhagddo o fewn Heddlu De Cymru i wella'r ymateb i Ecsploetio Troseddol Plant. Dylid rhoi diweddariad cynnydd ar y gwaith hwn i'r Bwrdd Diogelu o fewn 6 mis.

Datganiad gan Adolygydd/wyr			
ADOLYGYDD 1	Jane Foulner	ADOLYGYD D 2 (fel y bo'n briodol)	Nicole Devonish
Datganiad o annibyniaeth o'r achos <i>Datganiad Sicrwydd Ansawdd o gymhwyster</i>		Datganiad o annibyniaeth o'r achos <i>Datganiad Sicrwydd Ansawdd o gymhwyster</i>	
<p>Gwnaf y datganiad canlynol i nodi Gwnaf y datganiad canlynol i nodi cyn imi fod yn rhan o'r adolygiad dysgu hwn:-</p> <ul style="list-style-type: none"> • Na fûm yn uniongyrchol gyfrifol am yr unigolyn na'r teulu, nac wedi rhoi cyngor proffesiynol ar yr achos • Nid wyf yn rheolwr llinell uniongyrchol ar ymarferwr(wyr) sy'n rhan o'r achos • Mae gennyf y cymwysterau, y wybodaeth a'r profiad priodol a hyfforddiant i gynnal yr adolygiad • Cynhaliwyd yr adolygiad yn briodol a'i fod yn drylwyr ei ddadansoddiad a'i werthusiad o'r materion a nodir yn y Cylch Gorchwyl 		<p>Gwnaf y datganiad canlynol i nodi Gwnaf y datganiad canlynol i nodi cyn imi fod yn rhan o'r adolygiad dysgu hwn:-</p> <ul style="list-style-type: none"> • Na fûm yn uniongyrchol gyfrifol am yr unigolyn na'r teulu, nac wedi rhoi cyngor proffesiynol ar yr achos • Nid wyf yn rheolwr llinell uniongyrchol ar ymarferwr(wyr) sy'n rhan o'r achos • Mae gennyf y cymwysterau, y wybodaeth a'r profiad priodol a hyfforddiant i gynnal yr adolygiad • Cynhaliwyd yr adolygiad yn briodol a'i fod yn drylwyr ei ddadansoddiad a'i werthusiad o'r materion a nodir yn y Cylch Gorchwyl 	
Adolygydd 1 (Llofnod)	Adolygydd 2 (Llofnod)

Enw (Priflythrennau)	Enw (Priflythrennau)
Dyddiad	Dyddiad

Cadeirydd y Panel Adolygu (Llofnod)
Enw (Priflythrennau)
Dyddiad

Atodiad 1: Cylch corchwyl

Atodiad 2: Amserlen gryno

<p>Proses Adolygu Ymarfer Oedolion</p> <p><i>I gynnwys yn gryno yma:</i></p> <ul style="list-style-type: none"> • <i>Y proses y mae'r Bwrdd Diogelu Oedolion yn ei dilyn a'r gwasanaethau a gynrychiolir ar y Panel Adolygu</i> • <i>Cynhaliwyd digwyddiad dysgu a'r gwasanaethau a fu'n bresennol</i> • <i>Roedd aelodau'r teulu wedi cael gwybod, ceisiwyd eu barn ac fe'u cynrychiolwyd drwy'r digwyddiad dysgu a rhoddwyd adborth iddynt</i> <p>Comisiynodd cadeirydd Bwrdd Diogelu Caerdydd a Bro Morgannwg Adolygiad Ymarfer Oedolion mewn perthynas ag achos APR 3/2020.</p> <p>Roedd y gwasanaethau a oedd yn cael eu cynrychioli ar y panel yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Heddlu De Cymru • Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro • Gwasanaethau Plant Caerdydd • Addysg Cyngor Caerdydd • Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuencid Caerdydd • Ymddiriedolaeth St Giles <p>Cynhaliwyd digwyddiad dysgu ar 12 Rhagfyr 2019 a chafwyd cynrychiolwyr o'r asiantaethau canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Heddlu De Cymru • Gwasanaethau Plant Caerdydd
--

- Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuencid Caerdydd
- Ymddiriedolaeth St Giles
- Addysg Cyngor Caerdydd

Gwnaed ymdrech helaeth i gysylltu â'r teulu ond gwrthododd fod yn rhan o'r digwyddiad.

Gwrthododd y teulu gymryd rhan

Rhestr Termau

- **Meddwl yn ddiogel** - Tîm Camfanteisio Gwasanaethau Plant sy'n gweithio gyda phobl ifanc sydd mewn perygl o neu sy'n profi camfanteisio rhywiol a throreddol.
- **GCI** - Gwasanaethau Cyfiawnder Ieuencid
- **PPN** – Hysbysiad Diogelu'r Cyhoedd
- **CTB - Camfanteisio Troreddol ar Blant**
- **ParG** – Person ar goll
- **CDA** – Cyfarfodydd Diogelu Amlasiantaethol

Adnoddau Defnyddiol

Ymddiriedolaeth St Giles - [Camfanteisio Troreddol Plant - St Giles \(stgilestrust.org.uk\)](http://stgilestrust.org.uk)

Childline - [Masnachu plant | Childline](#)

Fearless (Crimestoppers) - [Hafan - Di-ofn](#)

#nottheone - [Hafan - NotTheOne](#)

Canllaw Cymdeithas y Plant i rieni - [Guide-for-parents-worried-about-child-being-criminally-exploited.pdf \(childrensociety.org.uk\)](#)

At ddefnydd Llywodraeth Cymru'n unig

Dyddiad y cafwyd y wybodaeth

Dyddiad anfon llythyr cydnabod i Gadeirydd y Bwrdd Diogelu Oedolion

.....

Dyddiad anfon i'r arolygiaethau/Arweinwyr Polisi perthnasol

Asiantaethau	Do	Naddo	Rheswm
AGGCC (CSSIW)	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	
Estyn	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	
AGIC (HIW)	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	
Arolygiaeth Ei Fawrhydi Cwnstablath	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	
Arolygiaeth Ei Fawrhydi y Gwasanaeth Prawf	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	

Atodiad 1: Cylch corchwyl

Bwrdd Diogelu Rhanbarthol Caerdydd a Bro Morgannwg

Cylch Gorchwyl Adolygiad Arfer Oedolion (Cryno) Enghraifft

Parthed: APR 03/2020

Cyflwyniad

Caiff adolygiad arfer oedolion cryno ei gomisiynu gan Fwrdd Diogelu Oedolion Rhanbarthol (BDORh) yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, Gweithio gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl: Cyfrol 3. Comisiynir adolygiad ymarfer oedolion cryno pan fo plentyn mewn perygl sydd heb, ar unrhyw ddyddiad yn ystod y 6 mis cyn dyddiad y digwyddiad, fod yn berson y mae'r awdurdod lleol wedi penderfynu gweithredu i'w ddiogelu rhag cam-drin neu esgeulustod yn dilyn ymholiad gan awdurdod lleol a'i fod wedi:

- marw; neu
- gael anaf a allai beryglu ei fywyd; neu
- amharwyd ar ei iechyd mewn ffordd ddifrifol a pharhaol.

Cylch Gorchwyl

Cytunwyd ar y cylch gorchwyl isod ar gyfer yr adolygiad hwn:

- Amserlen yr adolygiad fydd 26 Mawrth 2018 – 02 Mehefin 2019
- Bydd y gwasanaethau canlynol yn llunio amserlen o ddigwyddiadau arwyddocaol o ran eu gwaith â'r Oedolyn, yn ystod y cyfnod uchod. Yna caiff amserlen gyfunol ei llunio.
 - Heddlu De Cymru
 - Gwasanaethau Cyfiawnder Ieuencid Caerdydd
 - Gwasanaethau Cymdeithasol
 - Iechyd
 - Tai

Yna caiff amserlen gyfunol ei llunio.

Tasgau Craidd (adolygiad ymarfer cryno)

- Penderfynu p'un a yw'r penderfyniadau a'r camau gweithredu'n yr achos yn cydymffurfio â'r polisi a'r gweithdrefnau i'r gwasanaethau a'r Bwrdd a enwir.

- Archwilio gwaith rhyngasiantaethol a gwasanaethau i'r unigolyn a'i deulu
- Penderfynu i ba raddau yr oedd penderfyniadau a champau gweithredu'n canolbwyntio ar yr unigolyn.
- Gwahodd cyfraniadau i'r adolygiad gan aelodau priodol o'r teulu a rhoi gwybodaeth iddyn nhw am gynnydd.
- Ystyried unrhyw archwiliadau neu waith cyfochrog o ran yr achos.
- Cynnal digwyddiad dysgu i ymarferwyr a nodi'r adnoddau gofynnol.

Tasgau penodol y Panel Adolygu

- Nodi a chomisiynu adolygydd/wyr i weithio gyda'r *Panel Adolygu* yn unol â'r canllawiau ar adolygiadau cryno ac estynedig.
- Cytuno ar yr amserlen.
- Nodi asiantaethau, gwasanaethau perthnasol a gweithwyr proffesiynol i gyfrannu at yr adolygiad nas ceisiwyd eto gan Is-grwp AAP/AAO, llunio amserlen a chrynodeb achos cychwynnol a nodi unrhyw gamau unsyth i'w cymryd.
- **Ystyried, cydnabod ac ymateb i effaith Camfanteisio Troseddol a gwendidau'r achos hwn yn benodol**
- Llunio amserlen gyfunol, dadansoddiad cychwynnol a damcaniaethau.
- Cynllunio gydag adolygydd/wyr ddigwyddiad dysgu i ymarferwyr, i gynnwys nodi pwy sy'n dod, a threfniadau i'w paratoi a'u cynorthwyo cyn ac ar ôl y digwyddiad, a threfniadau adborth.
- Cynllunio gyda'r adolygydd/wyr drefniadau cyswllt â'r unigolyn ac aelodau'r teulu cyn y digwyddiad.
- Derbyn ac ystyried adroddiad drafft yr adolygiad ymarfer i sicrhau bod y cylch gorchwyl wedi'i gyflawni, yr ymdriniwyd â'r ddamcaniaeth gychwynnol a bod unrhyw wersi ychwanegol wedi'u nodi a'u cynnwys yn yr adroddiad terfynol.
- Cytuno ar gasgliadau'r adolygiad ac ar gynllun gweithredu amlinellol, a gwneud trefniadau i'w cyflwyno i Is-grwp Adolygu Achosion a'r Bwrdd Diogelu Rhanbarthol ar gyfer ystyriaeth a chytundeb.
- Cynllunio trefniadau i roi adborth i aelodau'r teulu a rhannu cynnwys yr adroddiad ar ôl i'r adroddiad ddod i ben a chyn ei gyhoeddi.

Tasgau'r Bwrdd Diogelu Oedolion Rhanbarthol

- Ystyried a chytuno i unrhyw bwyntiau dysgu i'r Bwrdd gael eu cynnwys yn yr adroddiad terfynol neu'r cynllun gweithredu.
- Y *panel adolygu* i gwblhau'r adroddiad a'r cynllun gweithredu.
- Y Bwrdd Diogelu Rhanbarthol i anfon yr Adroddiad a'r Cynllun Gweithredu i'r asiantaethau perthnasol i roi sylw terfynol arnyn nhw cyn eu cymeradwyo a'u cyflwyno i Lywodraeth Cymru.
- Cadarnhau trefniadau ar gyfer rheoli'r cynllun gweithredu amlasiantaethol gan yr Is-grŵp Adolygu Achosion, gan gynnwys sut caiff gwelliannau i wasanaethau eu nodi, eu monitro a'u hadolygu
- Cyhoeddi'r cynllun ar wefan y Bwrdd Diogelu Rhanbarthol.
- Cytuno i'w ddsbarthu i asiantaethau, gwasanaethau a gweithwyr proffesiynol perthnasol.
- Bydd Cadeirydd y Bwrdd yn gyfrifol am gyhoeddi'r sylwadau a'r ymatebion i gyfryngau sydd â diddordeb o ran yr adolygiad nes cwblhau'r broses.

